



ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
28 MEHEFIN, 2019

TEITL: *Dirprwyo a Staffio*

AWDUR: *Iwan G Evans, Swyddog Monitro - Corff Atebol*

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adrodd ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch strwythur staffio'r Swyddfa Rhaglen, y drefn o fewn awdurdodau lleol a'r bwriad ynghylch dirprwyo penderfyniadau.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cadarnhau y pennir strwythur staffio'r Swyddfa Rhaglen yn ystod cyfnod Cytundeb Llywodraethu 1 ("GA1") gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

2.2. Cytuno i ddirprwyo'r cyfrifoldeb o benodi i swyddi ar y strwythur staffio cymeradwy dan lefel y Cyfarwyddwr Rhaglen i'r Cyfarwyddwr Rhaglen yn unol â'r adroddiad.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Dan GA1 mae gan y Bwrdd Uchelgais rym i ddirprwyo ei swyddogaethau i Is-bwyllgorau a/neu Swyddogion. Un o elfennau allweddol y prosiect yw sefydlu a rheoli Swyddfa Rhaglen. Er bod y staff yn gyflogeion i'r Corff Atebol yn gyfreithiol, maent gyfystyr ag adnodd rhanbarthol i'r Bwrdd Uchelgais a cânt eu sefydlu a'u hariannu drwy gyllideb y Cyd-bwyllgor. Felly, mae ar y Bwrdd Uchelgais angen gosod egwyddorion clir yng nghyswllt y trefniadau hyn.

4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'n anochel y bydd materion ariannu ynghlwm â sefydlu strwythur staffio i'r Swyddfa Rhaglen. Bydd yn adnodd sy'n datblygu hefyd, a dylai'r Bwrdd Uchelgais gael rôl i gymeradwyo'r strwythur staffio er mwyn sicrhau bod yr adnoddau staffio yn briodol ac yn ddigonol ond hefyd fel mater o lywodraethu da.

4.2. O fewn yr awdurdodau lleol, yn gyffredinol y Pennaeth Adran / Cyfarwyddwr perthnasol sy'n penderfynu ar unrhyw newidiadau i strwythurau staffio. Yng nghyd-destun y Bwrdd Uchelgais, y Cyfarwyddwr Rhaglen fyddai'n cymryd y rôl honno. Fodd bynnag, mewn trefniant cydweithio lle bydd gan y Bwrdd Uchelgais berthynas agosach, gydag ymrwymïadau ariannol a defnydd o adnoddau, mae'n debyg y bydd mwy o reolaethau ynghlwm â'r dirprwyo gan fod y gyllideb yn gyfyngedig. Felly, argymhellir y drefn ddirprwyo gychwynnol a ganlyn:

4.3. Bydd y materion isod yn faterion i'r Cyd-bwyllgor:

- Penodi a diswyddo'r Cyfarwyddwr Rhaglen;
- Pob cais am arian newydd;
- Cymeradwyo'r strwythur staffio cyffredinol;

- Materion sy'n debygol o effeithio ar berfformiad y gwasanaeth.

4.4. Argymhellir y bydd y Cyfarwyddwr Rhaglen yn adrodd ar strwythur y Swyddfa Rhaglen o fewn yr Adroddiad Blynyddol.

4.5. Gan ystyried darpariaethau Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 bydd prosesau recriwtio a diswyddo'r holl staff ar lefel dan brif swyddogion yn cael eu gwneud gan y Rheolwr Rhaglen neu ddirprwy swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol newydd o'r adroddiad hwn.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Wrth i waith y Bwrdd Uchelgais ddatblygu, mae hi'n bwysig ei fod yn ystyried trefniadau ar gyfer dirprwyo gwneud penderfyniadau. Drwy gael trefniadau dirprwyo clir ynghylch staffio, mae'n rhoi eglurder ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ogystal â rheoli adnoddau yn nyddiau cynnar hyn y bartneriaeth. Gellir parhau i adolygu'r trefniadau wrth i'r prosiect ddatblygu.

7. GOBLYGIADAU STAFFIO

7.1. Dim.

8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

8.1. Dim.

9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD

9.1. Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 14 Mehefin 2019.

ATODIADAU:

Dim

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:

Awdur yr Adroddiad

ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Atebol):

"Mae'r awdur wedi ymgynghori wrth baratoi'r adroddiad hwn, a chytunaf fod angen trefniadau dirprwyo clir, felly rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."